Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfarwyddwr
# Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## GALWAD AM GEISIADAU A CHANLLAWIAU AR SUT I WNEUD CAIS

### 1. Cyflwyniad

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn sefydlu Cyfadran, yn 2022, i ddwyn ynghyd y gwaith o ddatblygu a chydgysylltu hyfforddiant a datblygiad gyrfa i bobl sy'n gweithio yn y gymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle hynod gyffrous i wella a chynyddu llwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth i ymgeiswyr am swydd **Cyfarwyddwr y Gyfadran** y rhagwelwn y bydd yn cael ei llenwi drwy secondio ar sail ran-amser yr ymgeisydd llwyddiannus o'r sefydliad sy'n ei gyflogi ar hyn o bryd.

***Sylwer: y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 17:00 ar 25 Chwefror 2022.***

### 2. Cefndir

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn sefydliad wedi'i rwydweithio, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sy'n dwyn ynghyd ystod eang o bartneriaid ar draws y GIG yng Nghymru, prifysgolion a sefydliadau ymchwil, awdurdodau lleol ac eraill. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau eraill y llywodraeth a chyllidwyr ymchwil (yng Nghymru a ledled y DU); partneriaid yn y diwydiant; cleifion; y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i hybu ymchwil i glefydau, triniaethau, gwasanaethau a chanlyniadau a all arwain at ddarganfyddiadau ac arloesiadau a all wella a hyd yn oed achub bywydau pobl.

Cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw hybu, cynorthwyo a darparu goruchwyliaeth ar y cyd o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau ei bod o'r ansawdd gwyddonol ryngwladol uchaf, yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal yng Nghymru, ac yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn allweddol i'n gwaith er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yr ydym yn ei chynorthwyo yn berthnasol ac yn cael ei darparu'n effeithiol. Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw'r Athro Kieran Walshe.

Yn 2021, ymgymerodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru â'r Prosiect Llwybrau Gyrfa Ymchwil - prosiect cydweithredol rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Gwella Addysg Iechyd Cymru (AaGIC), gan weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Adolygodd y prosiect y llwybrau hyfforddi ymchwil a datblygu gyrfa ar gyfer y gymuned

ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ystyried a ydynt yn addas i'r diben ac yn ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud.

Cynigiodd y prosiect 17 o argymhellion i wella cyfleoedd ar gyfer llwybrau gyrfa ymchwil ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar draws sawl maes. Un o'r argymhellion oedd y dylai Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fuddsoddi mewn swydd arwain lefel uchel i arwain y maes gwaith hwn, gan godi proffil gyrfaoedd ymchwil, cydlynu datblygiadau cenedlaethol, cydweithio ledled Cymru â phartneriaid allweddol a hwyluso cydweithio ledled y DU.

### 3. Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Nodau ac amcanion lefel uchel Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fydd:

- dwyn ynghyd y gwaith o ddatblygu a chydgysylltu hyfforddiant a datblygu gyrfa i bobl sy'n gweithio yn y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru
- chwarae rhan ganolog wrth ddenu, hyfforddi a chefnogi'r ymchwilwyr iechyd a gofal gorau fel y gallwn ddatblygu gweithlu ymchwil academaidd medrus iawn
- cymryd rôl arweiniol wrth weithredu argymhellion yr adolygiad o lwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru.

Mae’r Gyfadran yn rhoi cyfle i ddod â chynlluniau dyfarnu personol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mentrau eraill sy'n gysylltiedig yn y dyfodol o dan faner y Gyfadran. Bydd Cyfarwyddwr Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cael ei gynorthwyo gan dîm a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys drwy'r Ganolfan Cymorth a Chyflenwi bresennol.

Bydd Cyfarwyddwr Cyfadran yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y Gyfadran a'r maes gwaith hwn a bydd yn cael cyfle i lunio'r fenter gyda chanllawiau gan Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru a grŵp cynghori/gweithredu.

### 4. Rôl Cyfarwyddwr y Gyfadran

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a deinamig i gymryd y cyfrifoldeb arweiniol dros Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fel ei gyfarwyddwr**.**

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o weithio ar lefel uwch yn y byd academaidd a'r llywodraeth/y GIG/awdurdodau lleol – a'r gallu i sefydlu hygrededd gyda'r gymuned ymchwil a llunwyr polisïau ac uwch arweinwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd ar hyn o bryd yn gweithio mewn swydd uwch mewn prifysgol, sefydliad ymchwil neu sefydliad iechyd/gofal cymdeithasol neu gymhwyster cyfatebol (naill ai yng Nghymru neu mewn mannau eraill). Rydym yn rhagweld trefnu secondiad gyda’r cyflogwr presennol i ymgymryd â'r swydd, a bydd y telerau ar gyfer hyn yn cael eu cytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus a'u sefydliad.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hanes ac arbenigedd ym maes ymchwil, a dealltwriaeth o'r galluogwyr a'r rhwystrau wrth ddilyn gyrfaoedd ymchwil ar draws

meysydd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd disgwyl i’r unigolyn weithio'n strategol ac ar y cyd, gan ddarparu arweiniad strategol ar gyfer rhaglen waith a fydd yn cynnwys anghenion a disgwyliadau ystod eang o randdeiliaid ac yn benodol mewn cysylltiad agos ag uwch reolwyr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n gyfrifol am y Gyfadran, drwy ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer y rhaglen a mewnbwn allweddol i gyfathrebu cysylltiedig.

Rhaid i'r cyfarwyddwr fod â sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i gyflwyno gwybodaeth gymhleth i gynulleidfaoedd arbenigol a rhai nad ydynt yn arbenigwyr. Rhaid bod ganddo brofiad a sgiliau amlwg o feithrin perthynas gadarnhaol a chynhyrchiol â chydweithwyr a rhanddeiliaid eraill.

Bydd y swydd yn rhan-amser (disgwylir iddi fod hyd at 0.5 WTE, i'w negodi gan yr ymgeisydd llwyddiannus gyda Chyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru).

**5. Cyfarwyddwr – prif gyfrifoldebau**

Bydd y cyfarwyddwr yn atebol i Gyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a bydd yn:

- Arwain y strategaeth gyffredinol i wella llwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru gan godi proffil gyrfaoedd ymchwil, cydlynu datblygiadau cenedlaethol, cydweithio ledled Cymru â phartneriaid allweddol a hwyluso cydweithio ledled y DU;
- Darparu arweiniad strategol ar gyfer gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad o lwybrau gyrfa ymchwil sy'n ymwneud â strategaeth, seilwaith, diwylliant a chyfathrebu;
- Cyfarwyddo, arwain a goruchwylio cymrodoriaethau a chynlluniau dyfarnu personol presennol ac yn y dyfodol a weithredir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru;
- Datblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwella gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru sy'n cael eu goruchwylio gan grŵp gweithredu, gan gynnwys gweledigaeth ar gyfer datblygu capasiti a gallu ymchwil ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol;
- Cydweithio ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi'r gwaith o wella gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru drwy ddull arwain cydweithredol;
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid cyllido ledled y DU, gan gynnwys partneriaid cyllido'r llywodraeth, cynghorau ymchwil ac elusennau i sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu i ymchwilwyr yng Nghymru, gan alluogi buddsoddiad traws-gyllidwr pan fo’n briodol;
- Adrodd ar gynnydd a chyngor gan Uwch Dîm Rheoli Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a grwpiau eraill fel y bo'n briodol;
- Cyflwyno datblygiadau, diweddariadau cynnydd a gweithgarwch cysylltiedig arall mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a fforymau cyhoeddus;

- Gweithredu fel ffigur gweladwy, hygyrch ar gyfer gyrfaoedd ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru;
- Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu, gweithredu a rheoli Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru;
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru i sicrhau bod y Gyfadran yn diwallu anghenion deiliaid dyfarniadau personol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru;
- Sefydlu'r grŵp gweithredu i lywio'r rhaglen waith gyffredinol i wella llwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys nodi'r blaenoriaethau.

Bydd Canolfan Cymorth a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gyfrifol am y rhaglen waith weithredol sy'n ymwneud ag amcanion y Gyfadran. Bydd Tîm Gweinyddu Cyfadran y Ganolfan Cymorth a Chyflenwi yn cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys drwy'r Ganolfan Cymorth a Chyflenwi sy'n cael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru.

**6. Y broses ymgeisio**

Bydd y cais am swydd Cyfarwyddwr drwy gyflwyno curriculum vitae llawn a llythyr cais (uchafswm o hyd at 4 tudalen) yn nodi eich gweledigaeth ar gyfer gwella gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru, eich gweledigaeth ar gyfer y Gyfadran a'ch addasrwydd ar gyfer y swydd.

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost at Nick Thomas, Rheolwr Prosiect, Yr Is-adran Ymchwil a Datblygu, Llywodraeth Cymru (nick.thomas@gov.cymru) erbyn **17:00 ar *25 Chwefror 2022.*** Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais. Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am ragor o wybodaeth neu ymholiadau am y swydd neu unrhyw agweddau ar y broses ymgeisio at Nick Thomas yn y lle cyntaf.

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan banel wedi'i lunio gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyfweld yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar ***18 Mawrth 2022.*** Bydd adborth yn cael ei roi i ymgeiswyr aflwyddiannus os gofynnir am hynny. Byddwn wedyn yn mynd ati i gytuno ar drefniadau secondiad gyda'r ymgeisydd llwyddiannus i ddechrau cyn gynted â phosibl.